

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae Deddf Dŵr 2014 yn gwneud newidiadau i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a fydd yn caniatáu i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) bennu rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau — datganiad cyfreithiol o daliadau a godir gan y cwmni a thelerau cysylltiedig, sy'n berthnasol i'r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid.¹ Wrth bennu'r rheolau mae'n rhaid i ni roi ystyriaeth i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac ymgynghori â'r personau perthnasol ynglŷn â'n rheolau drafft. Ar 9 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth y DU cyfres o ganllawiau codi tâl drafft i Ofwat er mwyn ymgynghori arnynt. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol agos².

Y ddogfen hon yw'r ymgynghoriad statudol ar ein rheolau drafft ynglŷn â chynlluniau taliadau a gyhoeddwyd o dan adran 143C Deddf Diwydiant Dŵr 1991, yn ogystal ag ymgynghoriad cam cynnar ar syniadaeth sy'n dod i'r amlwg parthed rheolau codi tâl cyfanwerthu a chytundebau arbennig. Rydym yn nodi ein cyfres arfaethedig o reolau cynllun taliadau a fyddai'n berthnasol i gynlluniau taliadau o flwyddyn codi tâl 2016-17 ac yn dangos sut mae ein rheolau'n rhoi ystyriaeth i ganllawiau codi tâl drafft Llywodraeth y DU. Rydym hefyd yn trafod ac yn ceisio barn ar feysydd penodol lle credwn y bydd rheolau codi tâl yn esblygu dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

¹ Gweler atodiad 1 ynglŷn â chynlluniau taliadau a'r fframwaith cyfreithiol newydd.

² [Ar 24 Awst cyhoeddodd Llywodraeth Cymru cyfres o ganllawiau codi tâl drafft i Ofwat er mwyn ymgynghori arnynt.](#)

Cynnwys

1. Cefndir a chyd-destun	5
2. Rheolau cynllun taliadau	10
3. Sicrwydd a gofynion o ran Gwybodaeth	19
4. Datblygiadau i'r dyfodol a'r camau nesaf	21
Atodiad 1: Cynlluniau taliadau a'r fframwaith cyfreithiol	31
Atodiad 2: Rheolau cynllun taliadau drafft ar gyfer 2016-17	33
Atodiad 3: Arsylwadau ar enghreifftiau o arfer da	40

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Croesawn eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 30 Medi 2015.

E-bostiwch eich ymatebion i ynon.gablinger@ofwat.gsi.gov.uk, neu postiwch hwy at:

Ynon Gablinger
Ofwat
21 Bloomsbury Street
London
WC1B 3HF

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag Ynon Gablinger ar 0121 644 7654 neu drwy e-bost at ynon.gablinger@ofwat.gsi.gov.uk.

Byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk, oni bai y byddwch yn nodi eich bod yn dymuno i'ch ymateb beidio â chael ei gyhoeddi. Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth - yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoIA), Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, a fydddech cystal â bod yn ymwybodol bod 'Cod Ymarfer' statudol yn bodoli, o dan FoIA, sy'n delio, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu egluro i ni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd i chi y gallwn gynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar Ofwat.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau drafft ar gyfer 2016-17 sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 2? A oes yna unrhyw reolau eraill yr ydych chi'n credu ddylai gael eu cynnwys?

C2 Beth yw'r ffordd orau i fabwysiaidau taliadau draenio dŵr seiliedig ar arwynebedd safle? Pa wersi ellir eu dysgu o weld sut mae cwmnïau wedi symud i'r dull hwn hyd yma?

C3 A ydych chi'n cytuno gyda'n trothwy arfaethedig ar gyfer cynnydd 'Sylweddol' biliau? Os nad ydych, a oes tystiolaeth ar gyfer trothwy mwy addas? A sut gellir asesu hyn ar gyfer gwahanol fathau o gwsmeriaid?

C4 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd?

C5 A ydych chi'n meddwl y dylai datganiad sicrwydd Bwrdd gynnwys unrhyw beth arall i'r hyn yr ydym yn ei gynnig uchod?

C6 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyflwyno datganiad am newidiadau sylweddol?

C7 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r cynigion sydd wedi eu cynnwys ym mhennod 4? A oes yna unrhyw reolau neu faterion eraill eraill yr ydych chi'n credu y dylid ymgynghori arnynt y flwyddyn nesaf?

C8 A fyddai'n ymarferol a/neu'n ddymunol i gynnwys yr holl daliadau nad sy'n rhai sylfaenol yn y cynllun taliadau cyfanwerthu?

C9 A oes gennych chi farn benodol ynglŷn â'r gofyniad i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl dim hwyrach na wythnos gyntaf mis Ionawr?

C10 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig amlinellol y dylai taliadau cyfanwerthu mynegol gael eu cyhoeddi ym misoedd Gorffennaf a Hydref?

1. Cefndir a chyd-destun

Mae Adran 16 Deddf Dŵr 2014 (WA14) yn diwygio Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) er mwyn newid y ffordd yr ydym yn goruchwyllo cynlluniau taliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (cwsmeriaid manwerthu). O 1 Tachwedd 2015 bydd yn dileu'r gofyniad i gynlluniau taliadau cwmnïau dŵr³ gael eu 'cymeradwyo' gan Ofwat ac, yn hytrach, yn caniatáu i ni bennu cyfres o reolau codi tâl y bydd yn rhaid i gynlluniau taliadau gydymffurfio â hwy.

Croesawn y newid mewn deddfwriaeth. Mae'n gyson gyda'n strategaeth, gan alluogi gwell perchnogaeth ac arloesedd gan gwmnïau a hefyd yn caniatáu i ni nodi'r egwyddorion (fel y dangosir yn ein rheolau) yr ydym ni'n eu hystyried yn bwysig i gwsmeriaid.

Ein prif ddyfais ar gyfer rheoleiddio taliadau yw drwy'r rheolaethau prisiau yr ydym wedi eu gosod ar gyfer 18 cwmni dŵr. Rydym yn gosod y refeniwiau cyffredinol y caniateir i'r cwmnïau hyn eu hadennill gan gwsmeriaid dros gyfnod o bum mlynedd. Yna mae'r cwmnïau dŵr hyn yn rhydd i bennu eu taliadau, o fewn cyfyngiad deddfwriaeth, er mwyn adennill y refeniwiau a ganiateir iddynt.

O fewn y cyfyngiadau hyn, rydym yn ystyried y gall rheolau codi tâl chwarae rôl bwysig mewn ysgogi arbedion effeithlonrwydd pellach a galluogi defnydd priodol ac effeithiol o farchnadoedd. Mae taliadau sy'n adlewyrchu costau priodol yn rhoi arwyddion a fydd yn galluogi ac yn cymhell creu gwerth drwy effeithlonrwydd. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth bwysig i gyfranogwyr y farchnad ynglŷn â chyflenwi neu beidio, i wneud neu i brynu. Mae angen i daliadau hefyd fod yn dryloyw a rhagweladwy er mwyn cynorthwyo i wneud marchnadoedd i weithio'n fwy effeithiol. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd biliau sefydlog i gwsmeriaid, a bod enillwyr a chollwyr i bob newid mewn taliadau. Felly mae angen cael cydbwysedd wrth ystyried manteision posibl unrhyw reol codi tâl yn erbyn ei heffaith ar filiau gwahanol gwsmeriaid.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rheolau codi tâl yn esblygu dros amser. Bydd y rheolau'n esblygu i adlewyrchu datblygiadau'r farchnad ac adlewyrchu'r hyn yr ydym

³ Defnyddiwn y term "cwmnïau dŵr" i olygu cwmnïau sydd â phenodiadau fel ymgymerydd dŵr a/neu garthffosiaeth o dan bennod 1 Rhan 2 WIA91.

yn ei ddysgu wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael i asesu'r rheolau presennol. Dim ond dechrau siwrnai yw'r rheolau yr ydym yn eu cynnig yma, i fod yn weithredol ar gyfer cynlluniau taliadau o 2016-17. Dros amser disgwyliwn i esblygiad y rheolau sefydlogi.

Mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y pwerau i gyflwyno canllawiau codi tâl i Ofwat. Wrth bennu rheolau cynllun taliadau byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau codi tâl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU (yn ymwneud â chwmnïau dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yn ymwneud â chwmnïau dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein rheolau cynllun taliadau drafft ar gyfer blwyddyn codi tâl 2016-17. Gwneir y rheolau o dan adrannau 143(6A) a 143B WIA91 ac maent wedi eu cyfyngu i gynlluniau taliadau defnyddiwr terfynol (manwerthu). Bydd y rheolau yn berthnasol i bob cwmni dŵr (yn cynnwys penodeion newydd). Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio rhoi dealltwriaeth glir i randdeiliaid ynglŷn â'r cyfeiriad yr ydym yn gweld rheolau codi tâl yn datblygu dros y flwyddyn nesaf - a sut y maent yn berthnasol i daliadau cyfanwerthu - ac ymhellach i'r dyfodol.

Ar 9 Gorffennaf 2015 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei ganllawiau drafft ar gyfer ymgynghori. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn dangos sut y mae ein rheolau cynllun taliadau drafft yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau codi tâl drafft Llywodraeth y DU. Os bydd y canllawiau'n newid o ganllawiau drafft i rai terfynol, bydd yn rhaid i ni ystyried a yw'n briodol, o ystyried y canllawiau terfynol diwygiedig, i addasu'r rheolau hyn.

Nid yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi ymgynghori ar ei ganllawiau codi tâl drafft ar gyfer Ofwat. Fodd bynnag, wrth bennu ein rheolau drafft rydym wedi rhoi ystyriaeth i'w ['chanllawiau Tariff Cymdeithasol'](#). Unwaith y cyhoeddir canllawiau codi tâl Llywodraeth Cymru bydd yn rhaid i ni ystyried a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i'r canllawiau, i addasu'r rheolau hyn.

O gofio mai 2016-17 fydd y flwyddyn codi tâl gyntaf y bydd yn rhaid i gwmnïau gydymffurfio â rheolau codi tâl, ac y cyhoeddir ein rheolau yn weddol hwyr yn 2015, nid ydym yn cynnig cyflwyno newidiadau sylfaenol i'n hegwyddorion codi tâl presennol. Wrth baratoi ein rheolau cynllun taliadau drafft, rydym wedi adeiladu ar ein hegwyddorion a'n canllawiau codi tâl presennol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gwneud rhai newidiadau er mwyn adlewyrchu adborth gan randdeiliaid, ein profiad ein hunain o'r broses cymeradwyo cynllun taliadau a chanllawiau drafft y

Llywodraeth. Efallai y byddwn yn gwneud newidiadau pellach i'n rheolau codi tâl ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol.

Yn ogystal â phennu rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau, mae WA14 yn caniatáu i ni bennu rheolau codi tâl mewn perthynas â mathau eraill o daliadau. Er enghraifft, taliadau ar gyfer manwerthwyr, ar gyfer darpariaeth gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth cyfanwerthol gan y cwmni dŵr, taliadau ar gyfer darparwyr gwasanaeth uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi, ar gyfer darpariaeth mynediad at seilwaith y cwmni dŵr.

Yn ogystal â nodi ein rheolau cynllun taliadau drafft, mae ein hymgyngoriad yn ceisio rhoi dealltwriaeth glir i'n rhanddeiliaid o'r cyfeiriad yr ydym yn gweld rheolau codi tâl yn datblygu mewn meysydd eraill. Yng ngwanwyn 2016 byddwn yn ymgynghori ar gasgliad ar wahân o reolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu. Rydym yn trafod rhai o'r cynigion a'r materion yr ydym yn eu hystyried yng nghyd-destun taliadau cyfanwerthu er mwyn llywio ein hymgyngoriad y flwyddyn nesaf. Yn dilyn ein hymgyngoriad y flwyddyn nesaf, byddwn yn pennu rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu i fod ar waith ar gyfer agor pellach ar y farchnad ym mis Ebrill 2017.

Ym mhennod 2 rydym yn trafod ein rheolau cynllun taliadau drafft. Gwnaethom strwythuro'r drafodaeth o amgylch y pedwar egwyddor trosfwaol a geir yng nghanllawiau Llywodraeth y DU:

- (i) tegwch a fforddiadwyedd;
- (ii) diogelu'r amgylchedd;
- (iii) sefydlogrwydd a rhagweladwyedd; a
- (iv) thryloywder a gwasanaeth wedi'i ganolbwyntio ar y cwsmer.

Mae hyn yn helpu i roi dealltwriaeth glir i randdeiliaid ynglŷn â sut y bwriadwn roi ystyriaeth i ganllawiau'r Llywodraeth.

Ym mhennod 3 rydym yn trafod y wybodaeth y byddwn yn gofyn i gwmnïau ei chyflwyno ymlaen llaw neu ochr yn ochr â'r cynlluniau taliadau er mwyn rhoi sicrwydd o dan y gyfundrefn newydd.

Ym mhennod 4 rydym yn trafod y cynigion cychwynnol a'r camau nesaf ar reolau ar gyfer taliadau cyfanwerthu. Byddwn yn pennu rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu ar gyfer blwyddyn codi tâl 2017-18, mewn pryd ar gyfer agor y farchnad fanwerthu ar gyfer pob eiddo dibreswyl yn Lloegr ym mis Ebrill 2017.

Mae atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am gynlluniau taliadau a'r fframwaith cyfreithiol newydd. Mae atodiad 2 yn nodi ein rheolau cynllun taliadau drafft. Yn atodiad 3 rydym wedi rhoi enghreifftiau o arfer da gan gwmnïau ym mhroses cymeradwyaethau codi tâl 2015-16.

1.2 Dyletswyddau a rhwymedigaethau presennol

Pan fyddant yn pennu taliadau bydd gan gwmnïau eisoes gyfres o ddyletswyddau a rhwymedigaethau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy. Mae rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt):

- **Amod trwydded B.** Mae'n ofynnol i gwmnïau wneud yn siŵr bod eu taliadau'n cydymffurfio â'u terfynau prisiau.
- **Amod trwydded E.** Mae'n ofynnol i gwmnïau wneud yn siŵr wrth bennu taliadau o dan gynllun taliadau na ddangosir unrhyw ffafriaeth ormodol i, ac nad oes gwahaniaethu gormodol yn erbyn, unrhyw ddsbarth cwsmeriaid neu gwsmeriaid posibl.
- **Tariffau cymdeithasol a chonsesiynau draenio dŵr wyneb.** Fel y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gall cwmnïau dŵr gynnwys darpariaeth yn eu cynlluniau taliadau sydd â'r bwriad o leihau taliadau ar gyfer unigolion a fyddai'n cael trafferth i dalu eu taliadau'n llawn. Gall cwmnïau hefyd gynnwys darpariaeth yn eu cynlluniau taliadau sydd â'r bwriad o leihau taliadau ar gyfer grwpiau cymunedol parthed draenio dŵr wyneb o'u heiddo, lle bo'r tâl wedi'i seilio ar arwyneb yr ardal a ddraenir. Os byddant yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn eu cynlluniau taliadau, rhaid i gwmnïau roi ystyriaeth i'r canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU (yn achos cwmnïau dŵr Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yn achos cwmnïau dŵr Cymru).⁴
- **Deddf Cystadleuaeth 1998 (CA98).** Mae pennod I CA98 yn gwahardd cytundebau sy'n atal, cyfyngu neu'n gwyrddroi cystadleuaeth. Mae pennod II yn gwahardd camddefnyddio safle dominyddol. Pan amheuir yn rhesymol bod cytundebau neu ymddygiad gwrth-gystadleuol yn cael eu defnyddio, mae gennym bwerau cydredol gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ymchwilio a chymryd camau gofodi priodol.

⁴ Cwmnïau dŵr Lloegr yw cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Cwmnïau dŵr Cymru yw cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

1.3 Cyhoeddiadau perthnasol eraill

Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei '[Ddatganiad polisi strategol i Ofwat](#)'. Roedd y datganiad yn nodi cyfres o flaenoriaethau'r Llywodraeth, y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i ni eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau ac roeddent yn cynnwys canllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol. Ar 30 Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfres o '[Egwyddorion sy'n llywodraethu taliadau dŵr yn y dyfodol](#)'. Mae'r egwyddorion hyn wedi bod yn sail i ddatblygiad y canllawiau codi tâl y mae Llywodraeth y DU wedi eu datblygu.

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei '[Chanllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat](#)'. Bwriedir i'r canllawiau hyn, ynghyd â'r [Canllawiau Tariff Cymdeithasol](#), fod yn sail i'r canllawiau codi tâl y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi i ni yn y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd '[Taliadau cyfanwerthu a manwerthu – ymgynghoriad](#)' a oedd yn nodi cyfres o themâu allweddol i'w hystyried wrth bennu rheolau codi tâl yn y dyfodol, yn ogystal â nodweddion y fframwaith codi tâl cyffredinol, megis gofynion llywodraethu.

Ym mis Mai 2014, fe wnaethom adeiladu ar ymgynghoriad mis Ionawr gydag '[Ymgynghoriad ar daliadau cyfanwerthu a manwerthu ar gyfer 2015-16 a rheolau cynllun taliadau](#)', lle gwnaethom ddarparu cyfres o ddisgwyliadau gweithio ynglŷn â sut yr oeddem yn rhagweld y byddai cwmnïau'n datblygu eu taliadau cyfanwerthu a manwerthu ar gyfer 2015-16.

Cyhoeddodd yr ymatebion i ymgynghoriad mis Mai yn ein [penderfyniadau drafft \(atodiad technegol A8 – codi tâl\)](#), ac ym mis Tachwedd gwnaethom nodi ein dull ar gyfer proses gymeradwyo codi tâl 2015-16 yn: '[IN 14/17: Cymeradwyaeth ar gyfer taliadau 2015-16 – ein dull, proses a gofynion o ran gwybodaeth ar gyfer cwmnïau mawr a bach](#)'.

Ar 9 Gorffennaf 2015 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei [Ymgynghoriad ar Ganllawiau Codi Tâl i Ofwat](#).

2. Rheolau cynllun taliadau

Ar 9 Gorffennaf 2015 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chanllawiau codi tâl drafft ar gyfer ymgynghori. Mae'r ymgynghoriad yn darparu canllawiau ynglŷn â phedwar amcan allweddol.

- tegwch a fforddiadwyedd;
- diogelu'r amgylchedd;
- sefydlogrwydd a rhagweladwyedd; a
- thryloywder a gwasanaeth wedi'i ganolbwyntio ar y cwsmer.

Rydym wedi strwythuro'r bennod hon o amgylch y pedwar amcan trosfwaol hyn er mwyn helpu i roi dealltwriaeth glir i randdeiliaid ynglŷn â sut y bwriadwn roi ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth y DU.

Ar ddiwedd y bennod rydym yn trafod nifer o reolau ychwanegol yr ydym yn ystyried sydd angen eglurhad.

2.1 Tegwch a fforddiadwyedd

Mae'r canllawiau'n nodi bod sicrhau bod cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol yn cael borgen deg yn egwyddor bwysig sy'n sail i agwedd Llywodraeth y DU tuag at godi tâl.

2.1.1 Fforddiadwyedd

Mae ein rheolaethau prisiau yn ceisio diogelu cwsmeriaid drwy roi ymrwymadau perfformiad sy'n adlewyrchu'r hyn y mae eu cwsmeriaid am ei gael, a therfynau prisiau/refeniw sy'n adlewyrchu costau effeithlon cyflawni'r perfformiad hwnnw. Mae amod trwydded B yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau bennu taliadau mewn modd sy'n cydymffurfio â'n terfynau prisiau. Mae hyn yn rhoi diogelwch cyffredinol ar daliadau cwsmeriaid.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn gwneud nifer o lwfansau ar gyfer grwpiau bregus i dderbyn diogeliadau arbennig. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- WaterSure – cynllun yw hwn sy'n rhoi cap ar filiau dŵr cwsmeriaid mesuredig ac sy'n derbyn rhai budd-daliadau, os oes ganddynt deulu mawr, neu os oes

gan aelod o'u teulu gyflwr meddygol sy'n gofyn am ddefnydd ychwanegol sylweddol o ddŵr.

- Tariffau cymdeithasol – mewn rhai amgylchiadau, gall cwmnïau leihau'r taliadau a godir ar unigolion a fyddai fel arall yn cael anhawster i dalu eu bil dŵr yn llawn. Wrth ddatblygu taliadau o'r fath rhaid i gwmnïau dŵr Lloegr roi ystyriaeth i [ganllawiau ar dariffau cymdeithasol](#) Llywodraeth y DU. Rhaid i gwmnïau dŵr Cymru roi ystyriaeth i'r [canllawiau tariff cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cynlluniau consesiynol ar gyfer grwpiau cymunedol am daliadau draenio dŵr wyneb - efallai y bydd cwmnïau sy'n codi tâl am ddraenio dŵr wyneb ar sail arwynebedd safle yn cynnig cynlluniau consesiynol ar gyfer rhai cwmnïau cymunedol. Wrth ddatblygu cynlluniau o'r fath rhaid i gwmnïau dŵr Lloegr roi ystyriaeth i [ganllawiau ar gynlluniau consesiynol](#) Llywodraeth y DU.⁵

Bwriadwn i'n rheolau codi tâl ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau nodi'n glir y telerau ar gyfer cynlluniau o'r fath (gweler rheol 23). Yn fwy cyffredinol, rydym yn disgwyl i gwmnïau ymgysylltu â'u cwsmeriaid er mwyn deall eu hanghenion unigol, a rhoi gwybodaeth ychwanegol iddynt ynghlŷn â'r gwahanol ddewisiadau o ran tariff a thaliadau sydd ar gael iddynt.

2.1.2 Tegwch

Fel y nodwyd yn adran 1.1, mae rheolau cynllun taliadau yn gorwedd o fewn fframwaith cyffredinol o ddyletswyddau a rhwymedigaeth ar gwmnïau. Er enghraifft, mae gan gwmnïau amod trwydded sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddangos dim ffafriaeth na gwahaniaethu gormodol tuag at wahanol grwpiau cwsmeriaid wrth bennu eu taliadau. Rhaid i gwmnïau hefyd sicrhau bod eu taliadau'n cydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth.

Ffordd arall o sicrhau bod taliadau'n deg yw eu bod yn adlewyrchu'n addas y costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a ddarperir. Fel rhan o'r [egwyddorion a chanllawiau codi tâl](#) blaenorol gosodom nifer o amodau megis y dylai'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng taliadau mesuredig a thaliadau heb fesurydd ond adlewyrchu'r gwahaniaethau yng nghostau, neu fanteision ychwanegol i, un gwasanaeth mewn perthynas â'r llall.

⁵ "Guidance to Water and Sewerage Undertakers in relation to Concessionary Schemes for Community Groups for Surface Water Drainage Charges and Summary of Consultation Responses", Rhagfyr 2010.

Bwriadwn gadw'r gofynion hyn drwy'r rheolau codi tâl er mwyn gwarchod cwsmeriaid rhag taliadau heb gyfiawnhad.

Fel y nodwyd gennym yn ein [hymgyngoriad](#) ar daliadau ym mis Mai 2014, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf byddwn yn edrych ymhellach ar gostau cwmnïau ac yn ystyried y ffyrdd mwyaf manteisiol i strwythuro taliadau. Gallai hyn arwain at reolau newydd ynglŷn â strwythur taliadau, a sut y dyrennir costau rhwng gwasanaethau a chwsmeriaid. Rydym yn gweld y fframwaith rheolau costau fel proses esblygol lle byddwn yn mireinio'n raddol ein rheolau er mwyn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd a'r wybodaeth a ddatgelwyd drwy'r modd yr ydym yn rheoleiddio, a'r marchnadoedd yr ydym yn eu monitro.

2.2 Ystyriaethau amgylcheddol

Gall codi tâl drwy fesurydd roi arwyddion pris effeithiol i gwsmeriaid ynglŷn â'r dŵr y maent yn ei ddefnyddio ac yn gymhelliant i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Lle codir tâl seiliedig ar fesurydd ar gwsmeriaid rydym yn disgwyl i'r tâl adlewyrchu'r costau cyfartalog tymor hir sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth a chost y dŵr sydd i'w adennill yn bennaf drwy dâl cyfeintiol (dywedom yn flaenorol ein bod yn disgwyl i'r tâl sefydlog adennill dim mwy na chostau cysylltiedig â'r cwsmer y gwasanaeth mesuredig, megis darlleniad mesurydd a bilio). Nodwn fod gan gwmnïau ddyletswydd i hyrwyddo defnydd effeithlon ar ddŵr.

Yn ogystal â manteision amgylcheddol, gall codi tâl seiliedig ar y cyfaint a ddefnyddiwyd hefyd helpu i wneud dŵr yn fwy fforddiadwy, gan fod cwmseiraid ond yn talu am y dŵr y maent yn ei ddefnyddio.

2.2.1 Draenio dŵr wyneb

Yn 2003 fe wnaethom adolygu sut y codir tâl ar gwsmeriaid dibreswyl am ddraenio dŵr wyneb. Gwnaethom argymhell y dylai taliadau adlewyrchu'n well faint o ddŵr wyneb sy'n draenio oddi ar eiddo fel bod cwsmeriaid yn fras yn talu am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn a bod ganddynt gymhelliant i leihau'r baich y maent yn ei roi ar y system drwy leihau eu dŵr ffo.

Ers hynny mae rhai cwmnïau wedi mabwysiadu elfen seiliedig ar arwynebedd yn eu cynlluniau taliadau draenio dŵr wyneb. Mae hyn yn adlewyrchu'n well y costau y mae cwsmeriaid yn eu rhoi ar y system, gan fod safleoedd gydag arwynebeddau anathraidd mawr yn achosi lefelau uwch o ddŵr glaw i'w ddraenio i mewn i'r system.

Rydym yn cydnabod y gall symud i daliadau seiliedig ar arwynebedd effeithio'n sylweddol ar filiau os na chânt eu rheoli'n ofalus ac effeithiol. Mae canllawiau Llywodraeth y DU o'r farn y dylai cyflwyniad taliadau seiliedig ar arwynebedd **“ddim cael effaith or-negyddol ar sefydliadau sy'n darparu manteision ehangach i gymdeithas”** (paragraff 5.7).

Nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu gosod gofyniad ar gyfer codi tâl seiliedig ar arwynebedd dibreswyl ar gyfer 2016-17. Yn hytrach, rydym yn ceisio barn y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sydd heb eto fabwysiadu'r dull hwn ar gyfer codi tâl am ddraenio dŵr arwyneb, ynglŷn â'r ffordd orau i fabwysiadu dull o'r fath. Bydd hyn yn cynnwys barn y strwythur mwyaf priodol ar gyfer taliadau o'r fath, yr amserlen ar gyfer eu cyflwyno a'r camau y gall cwmnïau eu cymryd i helpu cwsmeriaid i leihau eu biliau. Rydym yn cydnabod y dewis sydd gan gwmnïau o ran yr ysgogwyr cost y maent yn eu defnyddio fel sail ar gyfer codi tâl, lefel y manylder y maent yn ei ddewis a sut y maent yn ymdrin â materion trawsnewid a disgwyliwn i gwmnïau ddewis eu dull gan roi ystyriaeth i'r effeithiau y maent yn ceisio eu cyflawni ond hefyd y canlyniad ar gwsmeriaid yr effeithir arnynt.

Rydym hefyd yn croesawu barn y cwmnïau hynny sydd wedi mabwysiadu dull codi tâl seiliedig ar arwynebedd ynglŷn â'u profiadau o sefydlu a gweithredu'r dull codi tâl hwn, yn cynnwys y costau a gafwyd ac unrhyw ymateb gan gwsmeriaid.

Ar hyn o bryd mae cwmnïau'n cynnig gostyngiad ar daliadau a godir ar gwsmeriaid sy'n dangos nad oes ganddynt unrhyw ddŵr wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus. Bydd rhai cwmnïau'n defnyddio taliadau gostyngol mewn ffordd sy'n rhy syml - hynny yw, dim ond caniatáu tâl gostyngol pan fyddant yn gwybod nad oes unrhyw ddŵr wyneb yn draenio o'r eiddo i garthffos gyhoeddus. Rydym yn ystyried y dull deuaidd hwn i fod yn amhriodol, ac y dylai cwmnïau ystyried cynnig disgowntiau rhannol pe bai cwsmer yn gallu dangos ei fod, drwy osod systemau draenio cynaliadwy, wedi lleihau'n sylweddol swm y dŵr wyneb sy'n draenio i'r garthffos gyhoeddus (gweler rheol 21).

Taliadau seiliedig ar arwyneb safle

Mae rhai cwmnïau wedi mabwysiadu elfen seiliedig ar arwynebedd yn eu cynlluniau taliadau draenio dŵr wyneb. Mae hyn yn adlewyrchu'n well y llwyth y mae cwsmeriaid yn ei roi ar y system a'r costau cysylltiedig a geir, gan fod safleoedd gydag ardaloedd anathraidd mawr yn achosi lefelau uwch o ddŵr glaw i'w ddraenio i

mewn i'r system.

Gall cwsmeriaid leihau eu taliadau drwy wneud arwynebeddau yn fwy athraidd (er enghraifft, newid asffalt am raean) neu osod suddfannau dŵr. Mae hyn yn lleihau cyfaint y dŵr glaw sy'n llifo i garthffosydd, ac felly'r costau a geir gan y cwmni. Mae hyn yn arwain at filiau is i gwsmeriaid yn gyffredinol, ac yn rhoi mwy o ddŵr yn ôl i'r amgylchedd. Gall hefyd ohirio neu osgoi'r angen am gynlluniau cyfalaf newydd sylweddol a allai fod yn ddrud i gwsmeriaid ac yn niweidiol i'r amgylchedd.

Gall cwmnïau gynnig ad-daliadau i grwpiau cymunedol o dan rai amgylchiadau, ac mae ganddynt hefyd ystod o ddulliau eraill i reoli newidiadau yn eu dull ar gyfer codi tâl (fel y trafodwyd uchod).

Yn yr Almaen, mae mabwysiadu taliadau a chymorthdaliadau draenio dŵr wyneb tryloyw wedi arwain at nifer uchel o retroffitio systemau draenio cynaliadwy (SUDS), yn arbennig toeon gwyrdd a systemau ailddefnyddio dŵr. Yn North-Rhine Westphalia, datgysylltwyd tua chwe miliwn metr sgwâr o arwynebedd o'r garthffos rhwng 1996 a 2004⁶.

2.3 Sefydlog a rhagweladwy

2.3.1 Hyrwyddo taliadau sefydlog

Mae canllawiau drafft Llywodraeth y DU yn gosod y disgwyliad na ddylai cwsmeriaid wynebu newidiadau anghymesur mewn taliadau o un flwyddyn i'r llall lle nad yw'r defnydd yn newid yn sylweddol.

Mae sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu'n addas y costau cyfartalog tymor hir gwaelodol yn helpu i sicrhau nad yw taliadau'n newid yn sylweddol o un flwyddyn i'r nesaf. Yn y gorffennol rydym wedi rhoi gofyniad y dylai strwythurau codi tâl adlewyrchu costau cyfartalog tymor hir (hynny yw, taliadau cyfeintiol i ffurfio cyfran fwy o'r cyfanswm refeniw sydd i'w adennill nag a gyflëir gan gostau tymor byr). Rydym yn cadw'r gofyniad hwn yn ein rheolau drafft.

⁶ Gweler [Dysgu gwersi gan lifogydd 2007](#)

Er gwaethaf y gofynion hyn ar gwmnïau, ar adegau gall newidiadau mewn taliadau cwmnïau arwain at gynnydd sylweddol mewn biliau.

Yn ei chanllawiau codi tâl nododd y Llywodraeth y dylem osod disgwyliadau clir bod yn rhaid i gwmnïau gynnal asesiad cymesur ar gyfer effeithiau sylweddol ar gwsmeriaid yn gyffredinol neu ar grwpiau o gwsmeriaid a gweithredu ar y canlyniadau.

Ar gyfer 2015-16 roeddem yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gynnal asesiadau effaith cymesur a strategaethau trin pryd bynnag yr oedd disgwyl i werth nominal biliau cwsmeriaid gynyddu gan fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math penodol o gwsmer a thybio lefel gyson o ddefnydd).

Deilliodd y ffigur 5% drwy edrych ar ystod o ddangosyddion fel y'u cyflwynir yn atodiad 3 ein [Ymgynghoriad mis Mai 2014 ar daliadau cyfanwerthu a manwerthu](#). Yn ein penderfyniadau drafft PR14 (atodiad technegol A8 – codi tâl) gwnaethom bwysleisio y dylai'r asesiad effaith a strategaethau trin gael eu cysylltu i ddifrifoldeb cynnydd mewn biliau fel y profir gan y cwsmer. Felly, credwn y dylai'r trothwy gael ei ddatgan mewn telerau nomimol ac nid perthynol i RPI a/neu K.

Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu cynnal y ffigur 5% fel trothwy ar gyfer cynnydd 'sylweddol' mewn biliau ac asesiad effaith cymesur.

Rydym yn dal wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r trothwy hwn. Hoffem weld cwmnïau'n datblygu eu dull eu hunain, drwy ymgysylltu â'u cwsmeriaid. Os yn briodol byddwn yn cynnwys darpariaethau i gwmnïau ddefnyddio dull gwahanol os gallant ddangos y byddai dull gwahanol yn gwasanaethu eu cwsmeriaid yn well (ac os byddant yn cael ein cytundeb ni ar gyfer hyn ymlaen llaw) Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ynglŷn ag a oes tystiolaeth gadarnach yn bodoli ar gyfer gwahanol fesur o 'sylweddol', a sut y gellir asesu hyn ar gyfer gwahanol fathau o gwsmeriaid.

Mae'r ffigur 5% yn bwynt trothwy ffurfiol. Rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau gydnabod, er y gallai cynnydd cyffredinol fod yn is na 5%, y bydd rhai grwpiau cwsmeriaid yn cael eu heffeithio'n wahanol. Mae'n bwysig i gwmnïau ystyried effeithiau unrhyw newidiau ar ystod lawn eu cwsmeriaid ac i liniaru unrhyw effeithiau yn briodol.

Dengys atodiad 3 arfer da o ran cyflwyniadau asesiad effaith cwmnïau, o broses gymeradwyo 2015-16.

2.3.2 Rhagweladwyedd taliadau

Mae'n bwysig bod taliadau'n cael eu cyfathrebu mewn modd y gall cwsmeriaid gael syniad rhesymol o beth fydd eu bil cyn iddynt ei dderbyn. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, byddwn yn gosod gofyniad i gynlluniau taliadau gael eu cyhoeddi cyn y flwyddyn codi tâl newydd.

Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gyhoeddi eu cynllun taliadau dim hwyrach na diwrnod gwaith cyntaf mis Chwefror yn union cyn y flwyddyn codi tâl bydd yn weithredol ynddi.

2.4 Tryloyw ac yn canolbwyntio ar y cwsmer

Yn flaenorol rydym wedi gosod disgwyliadau ar gwmnïau i ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater), ac i ymgysylltu â'u cwsmeriaid a'u grwpiau cynrychioliadol fel sy'n briodol. Mae'n bwysig bod cynlluniau taliadau yn ddigon tryloyw ac addas ar gyfer cwsmeriaid.

Byddwn yn gosod gofyniad i gwmnïau ymgynghori â CCWater (rheol 7)⁷. Byddem yn ei ystyried yn arfer da i gwmni ymgysylltu â'i grŵp her cwsmeriaid (CCG) ac i fod yn dryloyw ynglŷn â sut y mae wedi ystyried yr hyn a ddywedwyd wrtho gan ei CCG a CCWater er mwyn dod i farn derfynol am ei gynllun taliadau.

Byddwn hefyd yn rhoi gofyniad i gynlluniau taliadau gael eu cyhoeddi ar wefannau cwmnïau mewn modd tryloyw (rheol 10). Rydym hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod cynllun taliadau yn datgan sut y gall y cwsmeriaid sy'n ddefnyddwyr terfynol gael copi o unrhyw daliadau safonol lle nad yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y cynllun taliadau (rheol 11).

Ar gyfer taliadau heb fesurydd, byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau fod yn dryloyw a datgan yn glir yn y cynllun taliadau y sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliadau hynny (rheol 19).

Rydym hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynllun taliadau roi dewis rhesymol ynglŷn ag amseroedd a dulliau talu'r taliadau a bennwyd gan y cynllun taliadau (rheol 24).

⁷ Mae'r rheol yn ofynnol gan adran 143(6B) WIA91, fel y'i diwygiwyd gan WA14.

2.5 Rheolau cynllun taliadau eraill

2.5.1 Rheolau ar gyfer taliadau a asesir

Ers 1999 bu gan gwsmeriaid preswyl yr hawl i wneud cais am fesurydd a thalu drwy gyfeiriad at gyfaint y dŵr a gyflenwir oni bai nad yw hynny'n resymol ymarferol, neu y byddai'n afresymol ddrud, i'r cwmni dŵr wneud hynny. Ers hynny, gydag ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth y DU, rydym wedi ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gynnig taliadau amgen (a adnabyddir fel taliadau a asesir) i gwsmeriaid preswyl sy'n gofyn am fesurydd ond nad yw'n rhesymol bosibl rhoi un iddynt. Bwriadwn barhau â'r gofyniad hwn (rheol 18).

Rydym yn cynnig rheolau ar daliadau a asesir gyda'r bwriad bod y tâl a asesir yn adlewyrchu, cyn agosed ag sy'n ymarferol, cyfaint y dŵr sy'n debygol o gael ei gyflenwi i'r cwmser. Nid ydym yn cynnig rhagnodi sut y dylid gwneud hyn. Yn ein [hegwyddorion a chanllawiau codi tâl – cymeradwyaeth taliadau ar gyfer taliadau 2014-15](#) gwnaethom restru ystod o ddulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan gwmnïau a'u rhoi mewn trefn ffafriaeth, a thâl seiliedig ar ddeiliadaeth oedd y dull a ffafriwyd. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gallai dulliau eraill fod yn briodol ar gyfer gwahanol gwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod bod rhai problemau sy'n gysylltiedig â deiliadaeth, megis canfod a monitro lefel deiliadaeth. Fodd bynnag, rydym yn ystyried mai deiliaid unigol yw'r rhai a fyddai'n fwyaf tebygol o elwa o ddewis mesurydd, a bod mecanwaith ar waith i nodi'n weddol hawdd y cwsmeriaid hynny (e.e. drwy'r disgownt deiliaid unigol ar gyfer y dreth gyngor). Am y rheswm hwnnw rydym yn cynnig pennu rheol, sef mewn achos deiliad unigol bod rhaid i gwmnïau gynnig tâl a asesir sy'n adlewyrchu'r cyfaint o ddŵr sy'n debygol o gael ei gyflenwi i eiddo preswyl deiliadaeth unigol yn yr ardal berthnasol.

Nodwn fod pob cwmni oni bai am un eisoes yn cynnig tâl a asesir ar gyfer deiliaid unigol.

2.5.2 Tariffau diofyn

Rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau yr ydym yn gosod rheolaethau prisiau llawn ar eu cyfer i nodi yn eu cynlluniau taliadau y taliadau ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl defnyddwyr terfynol perthnasol (yn cynnwys gweithgareddau manwerthu a chyfanwerthu) sy'n adlewyrchu'r strwythur tariff "diofyn" y seilir eu rheolaeth prisiau manwerthu dibreswyl arno. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod strwythurau tariff diofyn cwmnïau yn gyson â'r rheolaeth prisiau. Nid yw hyn yn rhwystro cwmnïau

rhag cynnig taliadau eraill i gwsmeriaid dibreswyl, cyn belled mai dewis y cwsmer yw talu tâl gwahanol. Disgwyliwn i'r rheol hon gael ei diweddarau y flwyddyn nesaf, pan fyddwn yn penderfynu ar reolaethau prisiau manwerthu dibreswyl ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017.

Ni fydd y rheol hon yn berthnasol i gwmnïau dŵr bach. Nid yw'n berthnasol ar gyfer cwmnïau dŵr bach oherwydd, o ystyried eu maint, nid ydym ar hyn o bryd yn gosod rheolaethau prisiau llawn ar eu cyfer.

2.6 Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau drafft ar gyfer 2016-17 sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 2? A oes yna unrhyw reolau eraill yr ydych chi'n credu ddylai gael eu cynnwys?

C2 Beth yw'r ffordd orau i fabwysiadau taliadau draenio dŵr seiliedig ar arwynebedd safle? Pa wersi ellir eu dysgu o weld sut mae cwmnïau wedi symud i'r dull hwn hyd yma?

C3 A ydych chi'n cytuno gyda'n trothwy arfaethedig ar gyfer cynnydd 'Sylweddol' biliau? Os nad ydych, a oes tystiolaeth ar gyfer trothwy mwy addas? A sut gellir asesu hyn ar gyfer gwahanol fathau o gwsmeriaid?

3. Sicrwydd a gofynion o ran Gwybodaeth

3.1 Sicrwydd Bwrdd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cymeradwyo cynlluniau taliadau cwmnïau ar sail sicrwydd gan eu Bwrdd bod eu taliadau'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Yn y dyfodol ni fydd angen ein cymeradwyaeth ni ar eu cynlluniau taliadau. Yn hytrach, byddwn yn pennu rheolau ar gyfer cynlluniau taliadau a, lle bydd angen, gweithredu os na fydd cwmnïau wedyn yn cydymffurfio â hwy ('gweithredu ex post'). Er enghraifft, gallai hyn fod drwy roi cyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau o dan y fframwaith seiliedig ar reolau newydd, neu gymryd camau gorfodi parthed torri trwydded.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld bod ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau cwmnïau roi sicrwydd am eu taliadau yn ddyfais bwerus ar gyfer sicrhau bod Byrddau'n ymgysylltu â'u taliadau, ac felly'n creu perchnogaeth cwmni gwirioneddol am eu cyfrifoldeb i sicrhau bod taliadau'n deg a rhesymol. Yn ei dro mae hyn yn lleihau'r risg o daliadau annerbyniol.

Ar hyn o bryd bwriadwn gadw gofyniad i Fyrddau cwmnïau roi datganiad sicrwydd i ni bob blwyddyn, ac i gwmnïau gyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd, dim hwyrach na'r amser y maent yn cyhoeddi eu cynlluniau taliadau.

Bydd datganiad sicrwydd Bwrdd yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiad â phob rhwymedigaeth gyfreithiol; sicrwydd o'r asesiad effaith a strategaethau trin, a chywirdeb ei gynllun taliadau. Bydd y datganiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r broses y mae'r cwmni wedi ei dilyn o ran ymgysylltu â'i gwsmeriaid ar y cynllun taliadau.

3.2 Newidiadau sylweddol

Er gwaethaf y newid blaengar mewn ffocws, y mae'r fframwaith newydd yn ein galluogi i'w wneud, o reoleiddio ex ante (lle rydym yn gwirio cydymffurfiad ymlaen llaw), i weithredu ex post, rydym yn ystyried ei bod yn dal yn debygol y bydd mantais i gwmnïau gyflwyno datganiad i ni ynglŷn ag unrhyw newidiadau sylweddol y maent yn eu rhagweld yn eu taliadau o un flwyddyn i'r llall.

Gallai hyn helpu i ganfod problemau neu bryderon posibl, a'n hysbysu ynglŷn ag a fyddai o fudd i ni ymgysylltu â chwmni penodol cyn bod eu taliadau yn dod i rym. Ar

hyn o bryd bwriadwn osod gofyniad ar gwmnïau i roi datganiad o newidiadau sylweddol i ni dair wythnos cyn cyhoeddi cynllun taliadau ar gyfer y flwyddyn codi tâl newydd.

Bydd y datganiad yn cadarnhau a yw'r cwmni dŵr yn disgwyl i unrhyw newidiadau i'w gynllun taliadau arwain at gynnydd sylweddol mewn biliau ac, os ydyw, maint y cynnydd, y math o gwsmer yr effeithir arno, ac a oes unrhyw gymorth wedi ei gynnig. Bydd y datganiad hefyd yn rhoi manylion unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi codi tâl o'r flwyddyn flaenorol.

Byddai'n arfer da pe bai cwmnïau'n ein hysbysu y bydd newidiadau sylweddol i daliadau yn ei gynllun taliadau, y byddem yn cael datganiad sicrwydd eu Bwrdd gydag ef.

Mae atodiad 3 yn dangos enghreifftiau o arfer da mewn sicrwydd bwrdd ac asesiad effaith o'r broses cymeradwyaeth taliadau 2015-16.

3.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

C4 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd?

C5 A ydych chi'n meddwl y dylai datganiad sicrwydd Bwrdd gynnwys unrhyw beth arall i'r hyn yr ydym yn ei gynnig uchod?

C6 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyflwyno datganiad am newidiadau sylweddol?

4. Datblygiadau l'r dyfodol a'r camau nesaf

Mae'r rheolau drafft yr ydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, ar gyfer eu gweithredu yn 2016-17, yn ymwneud â chynlluniau taliadau a wneir o dan adran 143 WIA91, ac felly'n berthnasol i daliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (cwsmeriaid manwerthu).

Mae WA14 hefyd yn cyflwyno pwerau i ni bennu rheolau codi tâl yn ymwneud â mathau eraill o daliadau.

Yn y bennod hon rydym yn nodi ein datblygiadau ar gyfer y dyfodol o ran rheolau codi tâl. Taliadau "mynediad" yw'r rhain a godir gan gwmnïau dŵr ar ddarparwyr gwasanaethau manwerthu i ddefnyddwyr terfynol. Rydym yn canolbwyntio yma ar ddatblygiadau'n ymwneud â rheolau codi tâl yn ymwneud â thaliadau cyfanwerthu. Rhoddir y pwyslais hwn wrth i ni ragweld agor y farchnad manwerthu i gystadleuaeth ar gyfer holl gwsmeriaid dibreswyl cwmnïau dŵr Lloegr o fis Ebrill 2017.

Yn adran 4.1 rydym yn trafod rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu. Byddwn yn ymgynghori ac yn pennu rheolau ar gyfer taliadau cyfanwerthu y flwyddyn nesaf - yn ogystal ag unrhyw reolau penodol sydd eu hangen i gefnogi ein cod cyflenwi interim newydd yn y farchnad hon - fel eu bod ar waith ar gyfer agor y farchnad ymhellach ar gyfer gwasanaethau manwerthu i gwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr ym mis Ebrill 2017. Yn adran 4.2 rydym yn darparu cynllun lefel uchel i bennu rheolau ynglŷn â thaliadau ar gyfer gwasanaethau datblygwr a rheolau ynglŷn â thaliadau mynediad ar gyfer darparwyr gwasanaeth uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi.

4.1 Datblygiadau mewn perthynas â thaliadau cyfanwerthu

Ym mis Ebrill 2017 bydd holl gwsmeriaid dibreswyl cwmnïau dŵr Lloegr yn gallu dewis eu manwerthwr. Cyn hynny bwriadwn bennu rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu. Taliadau yw'r rhain y bydd yn rhaid i fanwerthwyr (deiliaid trwydded), yn cynnwys manwerthwyr newydd, eu talu i gwmnïau dŵr yn gyfnewid am ddarpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol wedi'u bwndelu er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaeth manwerthu.

Bydd tryloywder ac adlewyrchiad cost taliadau cyfanwerthu yn hollbwysig er mwyn helpu i sicrhau marchnad fanwerthu ddibreswyl effeithiol.

Yn adolygiad prisiau 2014 (PR14) gosodom ar gyfer 18 o gwmnïau dŵr reolaethau rhwymol ar wahân ar refeniwau gwasanaeth ar gyfer:

- gwasanaethau cyfanwerthu dŵr;
- gwasanaethau cyfanwerthu dŵr gwastraff (ar gyfer 10 cwmni perthnasol yn unig);
- gwasanaethau manwerthu preswyl; a
- gwasanaethau manwerthu dibreswyl.

Rhaid pennu taliadau cyfanwerthu ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff (a thaliadau cysylltu/seilwaith) er mwyn adennill dim mwy na'r refeniw cyfanwerthu a ganiateir ar gyfer pob gwasanaeth. Mae Amod Trwydded B yn caniatáu i ni ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu at ddiben dangos o fis Ebrill 2017 gydymffurfiaid gyda'r rheolaethau prisiau. Lle bo hynny'n berthnasol, cyhoeddodd cwmnïau eu taliadau cyfanwerthu 2015-16 ar 2 Chwefror 2015. Ym mis Medi byddwn yn cyhoeddi rhybudd gwybodaeth yn gofyn i gwmnïau gyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu ar gyfer 2016-17 ym mis Ionawr 2016.

Ym mis Mehefin cyhoeddodd [Materion trwyddedu a pholisi mewn perthynas ag agor y farchnad fanwerthu ddibreswyl – ymgynghoriad](#) (“ymgynghoriad trwyddedu a pholisi”). Yn yr ymgynghoriad hwn dywedem y gweithredir rhai o'r gofynion sydd ar gwmnïau dŵr, mewn perthynas â'u rhyngweithio gyda deiliaid trwydded newydd, yn y rheolau codi tâl. Rydym yn trafod y gofynion hyn a gofynion eraill isod.

4.1.1 Cyflawnrwydd cynlluniau taliadau cyfanwerthu

Mae tryloywder taliadau cyfanwerthu yn bwysig er mwyn sicrhau sefyllfa deg mewn marchnad fanwerthu ddibreswyl lle gellir cystadlu. Yn ein hymgynghoriad trwyddedu a pholisi roeddem o'r farn na ddylai cyfanwerthwyr godi tâl ar fanwerthwyr yn y farchnad ddibreswyl ar gyfer unrhyw wasanaeth cyfanwerthu a werthir yn y farchnad gan ddefnyddio tâl sydd heb ei gyhoeddi yn ei gynllun taliadau cyfanwerthu neu fel cytundebau arbennig. Hynny yw, rhaid i'r cynllun taliadau cyfanwerthu fod yn gyflawn (ac eithrio cynhwysiad cytundebau arbennig).⁸

⁸ Ni fydd y cynllun taliadau yn ymdrin â thaliadau ar gyfer cynhyrchion a werthir y tu allan i farchnad manwerthu NHH, megis cyflenwadau swmp dŵr o un cwmni dŵr i un arall,

Roedd cytundeb cyffredinol gyda'n barn ni a phwysigrwydd tryloywder ymhlith ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn Gofynnodd nifer o gwmnïau dŵr am eglurhad ynglŷn ag a fyddai angen i daliadau nad oedd yn rhai sylfaenol⁹ gael eu nodi yn y cynllun taliadau cyfanwerthu, gan nad oedd y rhain wedi eu cyflwyno'n flaenorol i ni ar gyfer cymeradwyaeth tâl. Roedd un ymatebwr yn dadlau bod yna amrywiaeth o daliadau nad sy'n sylfaenol lle na fyddai hyn yn ymarferol nac yn ddymunadwy, megis taliadau am wasanaethau datblygwr a thaliadau eraill y tu allan i reolaethau refeniw neu yn erbyn gweithgareddau nas penodwyd. Awgrymodd un ymatebwr bod angen rhestr safonol o daliadau nad sy'n sylfaenol y mae disgwyl i gwmnïau eu cynnwys yn eu cynllun taliadau cyfanwerthu.

Rydym yn ceisio adborth pellach ynglŷn ag a fyddai'n ymarferol a/neu'n ddymunol i gynnwys yr holl daliadau nad sy'n sylfaenol yn y cynllun taliadau cyfanwerthu. Bydd ein dull yn datblygu trwy ddeialog gyda rhanddeiliaid a chaiff ei gynnwys yn ein hymgynghoriad y flwyddyn nesaf, ond rydym yn bwriadu gosod gofyniad yn y dyfodol i gyhoeddi cynllun taliadau cyfanwerthu clir a chyflawn mewn rheolau codi tâl.

4.1.2 Amseru cyhoeddiad taliadau cyfanwerthu

Yn gyson â'n sefyllfa yn ein [penderfyniadau drafft \(atodiad technegol A8 – codi tâl\)](#) a'n hymgynghoriad trwyddedu a pholisi, byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu terfynol dim hwyrach na wythnos gyntaf mis Ionawr. Bydd hyn yn rhoi rhagor o amser i fanwerthwyr (yn berthynol â chyhoeddiad cynlluniau taliadau defnyddwyr terfynol ym mis Chwefror) ddatblygu eu cynigion prisiau manwerthu cyn diwedd y flwyddyn codi tâl. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau y gellir adlewyrchu unrhyw newidiadau i daliadau cyfanwerthu mewn systemau canolog a gaiff eu trin gan weithredwr y farchnad.

Yn ein hymgynghoriad trwyddedu a pholisi ym mis Mehefin gwnaethom hefyd ymgynghori ar gynnig i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu [mynegol](#) ym mis Gorffennaf, ar gyfer y flwyddyn codi tâl ganlynol. Roedd manwerthwyr, CCWater a rhai ymatebwyr eraill yn gyffredinol o blaid cyhoeddiad cynnar taliadau mynegol mewn egwyddor. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod bod angen cael cydbwysedd oherwydd y cyfaddawd rhwng amser y cyhoeddi ac ansawdd y wybodaeth: y cynharaf y bydd manwerthwyr yn derbyn y wybodaeth, cynharaf y gallant baratoi eu

⁹ Taliadau nad sy'n sylfaenol yw taliadau yn erbyn gwasanaethau nad sy'n sylfaenol a ddarperir gan y cwmnïau, megis datgysylltu, profi mesuryddion, darparu hydrantau tân, profion pwysedd ac ati.

strategaeth prisio a dechrau trafodaeth gyda chwsmeriaid, ond hefyd y llai dibynadwy yw'r wybodaeth hon fel sail ar gyfer datblygu strategaethau prisio. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen i daliad fod yn weddol sicr er mwyn iddo fod yn ddefnyddiol ar gyfer manwerthwr.

Gall taliadau a ragfynegir ddibynnu ar nifer o bamedrau, megis rhagolygon RPI, rhagolygon cysylltiadau newydd, rhagolygon y tywydd, prisiau ynni a defnydd dros yr haf (mae'r olaf ar gael ar gyfer cyhoeddiad Hydref ond nid ar gyfer Gorffennaf). Wrth bennu taliadau terfynol, bydd cwmnïau dŵr am ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf. O dan fecanwaith rhagolygon referniw manwerthu (WRFIM) PR14, gall cwmnïau gael cosbau pan fo'r referniw a adenillir gan gwsmeriaid, drwy godi taliadau, yn wahanol iawn i'r referniw a ganiateir mewn penderfyniad terfynol.

Yn wir, roedd ymatebion gan gwmnïau dŵr yn llai cefnogol ar gyfer cyhoeddiad cynnar. Er eu bod yn cydnabod y manteision mewn egwyddor ar gyfer manwerthwyr, roeddent yn bryderus ynglŷn chywirdeb taliadau mynegol os cânt eu cyhoeddi llawer iawn cyn y flwyddyn codi tâl a'r goblygiadau ariannol ar eu cyfer os ydynt yn gyfyngedig yn eu gallu i adlewyrchu datblygiadau rhwng cyhoeddiad taliadau mynegol a therfynol (er enghraifft, parthed WRFIM).

Awgrymodd rai ymatebwyr ffordd o gyfuno'r ddau safbwynt hwn: cyhoeddiad cynnar o daliadau cyfanwerthu mynegol ym mis Gorffennaf, a chyhoeddiad cadarnach ym mis Hydref.

Rydym o'r farn bod darpariaethau ar gyfer cyhoeddiad cynnar taliadau mynegol yn bwysig. Gallant roi sail ar gyfer trafodaethau cynnar rhwng manwerthwyr a chwsmeriaid.

Rydym yn ceisio barn ynglŷn â'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyhoeddiad cynnar taliadau cyfanwerthu mynegol. Byddai gennym hefyd ddiddordeb clywed barn ynglŷn â chynnig i wneud cyhoeddiad cynnar ar daliadau cyfanwerthu mynegol ym mis Gorffennaf, ac ail gyhoeddiad ym mis Hydref, na fyddai cwmnïau'n gallu ei ddiwygio ar wahân i ddiweddarau taliadau ar gyfer RPI mis Tachwedd.

Wrth baratoi taliadau cyfanwerthu mynegol, byddem hefyd am i gwmnïau dŵr fod yn gyson o ran defnyddio'r un rhagolygon RPI (y byddwn yn eu nodi ymlaen llaw). Byddwn yn gofyn bod taliadau cyfanwerthu mynegol a therfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cwmni dŵr mewn modd clir a thryloyw.

4.1.3 Cytundebau arbennig

Mae WIA91 yn caniatáu i gwmnïau godi tâl yn unol â chytundebau (a elwir yn “gytundebau arbennig”) gyda'r personau y codir tâl arnynt. Mewn achosion o'r fath, mae'r cytundeb yn cyfateb i sail gyfreithiol y taliad a gall nodi gwahanol dâl i'r un a nodwyd yn y cynllun taliadau.

O 1 Ebrill 2017 bydd holl gwsmeriaid dibreswyl cwmnïau dŵr Lloegr, yn cynnwys y rheini fydd eisoes ar gytundebau arbennig ar y pryd, yn rhan o farchnad manwerthu lle gellir cystadlu. Er mwyn sicrhau sefyllfa deg parthed cwsmeriaid o dan gyntundebau arbennig, bydd gofyn am lefel arbennig o dryloywder ynglŷn â thelerau pris a thelerau eraill cytundebau o'r fath.

Mae rhwymedigaeth, a nodir yn adran 142(6A) WIA91, ar gwmnïau dŵr i'n hysbysu ynglŷn â darpariaeth unrhyw gyntundeb arbennig newydd. Mae gofyn i ni gofnodi ar ein cofrestr (ac felly ei rhoi yn y parth cyhoeddus) wybodaeth ynglŷn â chytundebau o'r fath fel y gwelwn yn briodol.

Wrth lunio rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu bydd gofyn i ni¹⁰ gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr, lle bo cytundeb arbennig yn bodoli, osod ar ddeiliaid trwydded dim ond y taliadau a fyddai'n caniatáu i'r deiliaid trwydded eu codi ar y defnyddiwr terfynol ar yr un gyfradd neu gyfraddau a fyddai wedi bod yn berthnasol o dan y cytundeb arbennig. Mewn geiriau eraill, bydd yn rhaid i gwmnïau dŵr ganiatáu cyfle i ddeiliaid trwydded wneud elw.

Yn ein hymgynghoriad trwyddedu a pholisi trafodom yr egwyddor y dylai'r gwasanaethau a ddarperir gan gyntundebau arbennig fod yn rhai y gellir cystadlu â hwy ynghyd â'r gwasanaethau manwerthu ehangach yn y farchnad fanwerthu ddibreswyl. Gwnaethom gynnig bod cwmnïau dŵr yn ein hysbysu, at ddiben y gofrestr cytundeb arbennig, am elfen tâl cyfanwerthu unrhyw gyntundeb arbennig ar ffurf:

- y tâl cyfanwerthu penodedig a fyddai fel arall yn berthnasol i'r cyflenwad hwnnw, a'r

¹⁰ Caiff y gofyniad hwn yn ei amlinellu yn adran 66E(3) WIA91 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 5 Atodlen 2 i WA14) ar gyfer dŵr ac adran 117I(3) WIA91 (fel y'i gosodwyd gan Atodlen 4 i WA14) ar gyfer dŵr gwastraff.

- ganran y mae'r tâl cyfanwerthu cytundeb arbennig yn wahanol i'r tâl cyfanwerthu arferol a nodir (ffactor lluosogol cyfanwerthu).

Rydym yn dal i ystyried yr ymatebion manwl i'n cynigion ond, ar lefel uchel, cytunodd yr holl ymatebwyr bod angen mwy o dryloywder ar gyfer cytundebau arbennig er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau manwerthu a ddarperir drwy gytundebau arbennig yn rhai y gellir cystadlu hwy.

Rydym yn bwriadu cynnig y rheolau canlynol:

- Pan fydd gan gwmnïau dŵr gytundebau arbennig gyda chwsmeriaid, rhaid i elfennau manwerthu'r cytundebau hynny fod yn rhai y gellir cystadlu â hwy. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallai deiliad trwydded ddarparu'r un gwasanaethau am yr un pris petai'r cwsmer yn newid.
- Pan fo gan gwmnïau dŵr gytundebau arbennig gyda chwsmeriaid, rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag elfen tâl cyfanwerthu y taliad. Byddwn yn rhoi gwybodaeth o'r fath ar gael fel rhan o'r gofrestr cytundeb arbennig yn y dyfodol.

Byddwn yn ceisio adborth gan randdeiliaid ynglŷn â'n cynigion uchod. Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hyn mewn rhagor o fanylder y flwyddyn nesaf.

4.1.4 Cynlluniau telerau ac amodau a gymhwysir mewn amgylchiadau penodedig (contractau tybiedig)

Mae WA14 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyhoeddi ac adolygu o bryd i'w gilydd god cyflenwi interim er mwyn cwmpasu trefniadau cyflenwi interim yn y farchnad fanwerthu ddibreswyl. Bydd y cod yn rhoi diogelwch i gwsmeriaid petai eu manwerthwr trwyddedig yn gorffen cyflenwi iddynt, drwy sicrhau bod cyflenwr interim amgen yn parhau i gyflenwi iddynt hyd nes y bydd cwsmeriaid yn cael cyfle i ail-ymgysylltu yn y farchnad eu hunain fel sy'n briodol. Bydd contractau tybiedig yn nodwedd o'r trefniadau cyflenwi interim hyn.

Bydd darpariaeth yn y cod cyflenwi interim i ni osod telerau ac amodau contractau tybiedig pe bai angen er mwyn diogelu cwsmeriaid. Felly bydd darpariaethau'r cod yn cyfeirio at delerau pris a thelerau eraill ar gyfer contractau tybiedig. Efallai y bydd angen i ni sicrhau, drwy nodi rheolau codi tâl a chyfarwyddo deiliaid trwydded, bod y telerau manwerthu a gynigir gan ymgymerywyr a deiliaid trwydded yn gyson â'n trefniadau cyflenwi interim fel y nodir yn y cod perthnasol.

Bwriadwn ymgynghori ar ein cynigion cyflenwi interim mewn rhagor o fanylder yn ystod mis Hydref, yn ogystal ag ymgynghori ar gontractau tybiedig yn fwy cyffredinol, gan y bydd eu hangen hefyd mewn rhanbarthau lle bo'r ymgymwrwr penodedig wedi gadael y farchnad ddibreswyl.

4.1.5 Gwahanu taliadau dŵr gwastraff yn elfennau ar wahân

Mae'r tâl cyfanwerthu dŵr gwastraff yn cwmpasu gwasanaethau cyfanwerthu ar gyfer trin carthion budr, draenio priffyrdd a draenio dŵr wyneb. Rydym yn credu y gall cwsmeriaid a manwerthwyr elwa o gael tryloywder ynglŷn â'r elfennau hyn. Byddai tryloywder yn caniatáu i gwsmeriaid ymateb yn fwy uniongyrchol i arwyddion prisiau sydd wedi eu gwreidido yn y tâl. Gall hyn gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Byddai tryloywder hefyd yn caniatáu i fanwerthwyr gael trafodaeth wybodus gyda chwsmeriaid ynglŷn â ffyrdd i leihau eu biliau.

Rydym yn bwriadu gosod gofyniad ar gyfer 2017-18 i gwmnïau wahanu eu taliadau dŵr gwastraff cyfanwerthol i'r tair elfen ganlynol. Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gyhoeddi taliadau cyfanwerthu a wahanwyd ar sail 'peilot' ym mis Ionawr 2016. Yn y dyfodol byddwn yn ystyried a fyddai'r un gwahaniad yn fuddiol yng nghynlluniau taliadau defnyddwyr terfynol.

4.1.6 Safoni tâl

Dywed canllawiau codi tâl drafft Llywodraeth y DU:

"Efallai y bydd manteision o safoni rhai agweddau o dariffau a chodi tâl rhwng cwmnïau er mwyn sicrhau y gellir defnyddio dull rhesymol mewn rhai meysydd o godau'r farchnad er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad. Fodd bynnag, gallai hyn effeithio ar rai cwsmeriaid, yn ogystal â lleihau'r cwmpas ar gyfer arloesedd mewn strwythurau codi tâl."

Yn ein hymgyngoriad mis Ionawr trafodom y manteision ac anfanteision a'r gwahanol lefelau safoni. Dywedom, er y gallai bod rhinwedd i ryw faint o safoni (e.e. mewn lleihau costau setliad system a rhwystrau mynediad i'r farchnad fanwerthu ddibreswyl), gall hefyd fod yn niweidiol i ddatblygiad y farchnad ac arloesedd tariffau. Dywedom hefyd ein bod yn ffafrio bod rhyw lefel o fethodoleg codi tâl cyfanwerthu safonol yn cael ei datblygu dros amser, ond i ni beidio â chynllunio a rhagnodi tariffau cwmnïau.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i a ddylem, ac i ba raddau y dylem, safoni strwythurau codi tâl cyfanwerthu. Disgwyliwn ymgynghori ar gyfres o gynigion yn ymwneud â safoni taliadau cyfanwerthu yn 2015.

4.2 Datblygiad rheolau codi tâl mewn meysydd eraill

4.2.1 Rheolau codi tâl ar gyfer gwasanethau datblygwyr

Mae cwmnïau'n codi tâl ar ddatblygwyr am ddarpariaeth seilwaith perthnasol ac am gysylltu datblygiadau newydd i'r rhwydwaith dŵr a charthffosiaeth. Beirniadwyd y fframwaith codi tâl presennol fel un sydd â diffyg tryloywder, gyda thaliadau heb eu cysylltu'n glir i'r costau a geir a chaiff ei defnyddio'n anghyson ar draws cwmnïau.

Bydd WA14 yn gwneud newidiadau i WIA91 er mwyn caniatáu i ni ddisodli'r fframwaith codi tâl presennol a phennu rheolau codi tâl a allai fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae canllawiau drafft Llywodraeth y DU yn cydnabod y diffyg tryloywder yn y trefniadau codi tâl datblygwyr presennol. Mae'r canllawiau'n cydnabod yr angen i lunio rheolau codi tâl a fyddai'n rhoi mwy o dryloywder a rhagweladwyedd ar gyfer datblygwyr fel y gallant gynllunio'n well ar gyfer cost cysylltu i'r system dŵr a charthffosiaeth, a fyddai yn eu tro yn annog twf.

Mae newidiadau a wnaed gan WA14 yn caniatáu i Lywodraethau'r DU a Chymru gyhoeddi canllawiau i Ofwat ynglŷn â chynnwys rheolau yn y maes hwn (adran 144ZD WIA91). Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i gyhoeddi canllawiau manwl ym maes taliadau ar gyfer gwasanaethau datblygwyr. Wrth bennu rheolau codi tâl yn y maes hwn byddwn yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau o'r fath.

Disgwyliwn ddechrau gwaith at ddatblygiad rheolau codi tâl ar gyfer gwasanaethau datblygwyr yn ddiweddarach eleni.

4.2.2 Rheolau codi tâl ar gyfer prisio mynediad

Prisiau mynediad yw, yn debyg i daliadau cyfanwerthu a delir gan fanwerthwyr, taliadau y mae darparwyr gwasanaeth yn eu talu er mwyn defnyddio cyfleusterau a rhwydweithiau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr teryfnol.

Mae ymestyn marchnadoedd uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi, fel y rhagwelir gan WA14 yn gofyn am brisiau mynediad effeithiol er mwyn galluogi mynediad effeithlon a chaniatáu i gwmnïau newydd gystadlu ar sail sefyllfa deg.

Mae canllawiau drafft Llywodraeth y DU yn rhoi egwyddorion lefel uchel parthed rheolau codi tâl mynediad, gan gydnabod pwysigrwydd hybu marchnadoedd. Roedd y canllawiau hefyd yn awgrymu y bydd angen i'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau pellach parthed y marchnadoedd uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi wrth i'r cynlluniau ddod yn fwy cadarn.

Mae canllawiau drafft y DU yn nodi'r bwriad i ddileu'r gofyniad presennol i bennu taliadau mynediad ar sail yr "egwyddor cost". Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y DU ond yn dileu'r "egwyddor cost" ar adeg **“pan fydd y dull polisi ar gyfer gweithrediad manwl diwygiad uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi wedi ei sefydlu gan y Llywodraeth a bod y fframwaith angenrheidiol ar gyfer canllawiau codi tâl, rheolau codi tâl a chodau marchnad yn barod i gymryd ei le”** (paragraff 1.10).

Bydd gofyn i ni yn y pen draw bennu rheolau codi tâl y mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â hwy wrth bennu'r prisiau y byddant yn eu codi am ddarparu mynediad at eu cyfleusterau.

Mae prasio mynediad yn faes rheoleiddio allweddol y canolbwyntir arno yn ein rhaglen Water2020. Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd bapur trafod [Tuag at Ddŵr 2020 – cyflawni'r heriau ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr](#) lle gwnaethom ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, a sut y gallwn ni ei helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Cyhoeddodd hefyd y ddogfen gefnogi [Tuag at Ddŵr 2020 – materion polisi: hyrwyddo marchnadoedd](#) lle rydym yn trafod rôl prasio mynediad mewn gosod arwyddion prisiau priodol ar gyfer cyfranogwyr yn y farchnad a sut mae prisiau mynediad yn rhyngweithio gydag adennill costau yn cynnwys yr RCV.

Ym mis Rhagfyr 2015 byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion cyntaf ar rôl marchnadoedd a'r newidiadau canlyniadol yn y fframwaith rheoleiddio. Yn yr ymgynghoriad hwnnw byddwn yn nodi ein dull ar gyfer datblygu rheolau taliadau mynediad.

4.3 Y camau nesaf

Croesawn eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 30 Medi 2015. Byddwn yn ystyried ymatebion ac yn cyhoeddi ein casgliad terfynol o reolau cynllun taliadau, i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2016, yn gynnar ym mis Tachwedd 2015.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn ymgynghori ar reolau ar gyfer costau cyfanwerthu yn y gwanwyn a byddwn yn pennu rheolau mewn pryd ar gyfer blwyddyn codi tâl 2017-18.

4.4 Cwestiynau'r ymgynghoriad

C7 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r cynigion sydd wedi eu cynnwys ym mhennod 4? A oes yna unrhyw reolau neu faterion eraill eraill yr ydych chi'n credu y dylid ymgynghori arnynt y flwyddyn nesaf?

C8 A fyddai'n ymarferol a/neu'n ddymunol i gynnwys yr holl daliadau nad sy'n rhai sylfaenol yn y cynllun taliadau cyfanwerthu?

C9 A oes gennych chi farn benodol ynglŷn â'r gofyniad i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl dim hwyrach na wythnos gyntaf mis Ionawr?

C10 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig amlinellol y dylai taliadau cyfanwerthu mynegol gael eu cyhoeddi ym misoedd Gorffennaf a Hydref?

Atodiad 1: Cynlluniau taliadau a'r fframwaith cyfreithiol

Mae gan gwmnïau dŵr bwerau statudol o dan adran 142 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) i osod, hawlio ac adennill taliadau ar gyfer y gwasanaethau rheoledig y maent yn eu darparu i'w cwsmeriaid (o fewn y fframwaith cyfreithiol). Nid oes gan y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth terfynol (manwerthu) gytundeb unigol gyda'u cwmni dŵr. Mae'r berthynas yn statudol (mae gan gwmnïau dŵr rwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i gwsmeriaid ac felly mae ganddynt y pwerau statudol i godi tâl arnynt am y gwasanaethau hyn). Ar gyfer y cwsmeriaid hyn, mae taliadau wedi eu pennu mewn cynlluniau taliadau a luniwyd gan gwmnïau dŵr o dan adran 143 WIA91. Mae cynlluniau taliadau yn nodi'r tâl a godir gan gwmni am ddarparu cyflenwadau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i eiddo a thelerau cysylltiedig, megis amseroedd a dulliau talu. Heb unrhyw gytundeb unigol, cynllun taliadau yw'r sail gyfreithiol ar gyfer taliadau defnyddwyr terfynol.

Ar hyn o bryd mae WIA91 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau taliadau gael eu 'cymeradwyo' gan Ofwat cyn y gallant ddod i rym.

Mae adran 16 Deddf Dŵr 2014 (WA14) yn diwygio darpariaethau WIA91 sy'n ymwneud â chynlluniau taliadau. O 1 Tachwedd 2015 bydd y diwygiadau hyn yn dileu'r gofyniad i gynlluniau taliadau gael eu cymeradwyo gan Ofwat. Yn hytrach, mae gan Ofwat y pŵer i bennu 'rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau' y mae'n rhaid i'r darpariaethau cynlluniau taliadau gydymffurfio â hwy. Os ydym yn teimlo nad yw cynllun taliadau cwmni dŵr yn cydymffurfio â'r rheolau neu ofynion penodol eraill yna bydd gennym y pŵer i gyflwyno cyfarwyddyd i'r cwmni dŵr.

Yn benodol gall rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau -

- (a) wneud darpariaeth ynglŷn â'r mathau o daliadau y gellir eu pennu;
- (b) gwneud darpariaeth ynglŷn â swm neu uchafswm, neu ddulliau ar gyfer penderfynu ar swm neu uchafswm, unrhyw fath o dâl;
- (c) gwneud darpariaeth ynglŷn â'r egwyddorion ar gyfer penderfynu pa fathau o daliadau y gellir neu na ellir eu pennu;
- (d) gwneud darpariaeth ynglŷn ag egwyddorion ar gyfer penderfynu ar swm unrhyw dâl y gellir ei bennu;
- (e) ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau taliadau penodol fod ar gael mewn achosion penodedig;
- (f) gwneud darpariaeth ynglŷn ag amseriad talu taliadau;
- (g) ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau taliadau gael eu cyhoeddi;

(h) gwneud darpariaeth ynglŷn â sut i gyhoeddi cynlluniau taliadau.

Yn ogystal, rhaid i ni gyhoeddi rheolau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ymgynghori â CCWater ynglŷn â chynlluniau taliadau arfaethedig.

Rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r egwyddorion sydd i'w defnyddio gennym ni wrth benderfynu ar ddarpariaethau rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau (adran 144ZE WIA91) a gallant hefyd gyhoeddi canllawiau ynglŷn â chynnwys y rheolau (adran 143E WIA91). Wrth bennu rheolau ynglŷn â chynllun taliadau rhaid i ni roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn (yn ogystal ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan adrannau 43 neu 44 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 parthed tariffau cymdeithasol a thaliadau draenio consesiynol).

Atodiad 2: Rheolau cynllun taliadau drafft ar gyfer 2016-17

AWDURDOD RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU DŴR DEDDF DIWYDIANT DŴR 1991, ADRANNAU 143(6A) A 143B Rheolau Drafft ynglŷn â Chynlluniau Taliadau

Rhagymadrodd

1. Cyhoeddir y rheolau hyn gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B Deddf Diwydiant Dŵr 1991.
2. Daw'r rheolau i rym ar [...].
3. Mae'r rheolau'n berthnasol i ymgymerywyr dŵr ac ymgymerywyr charthffosiaeth pan fyddant yn llunio cynllun taliadau,
4. Mae'r rheolau yn atodol i ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol i ymgymerywyr o dan unrhyw ddeddfiad, neu offerynnau a wnaed yn ôl y gofynion hynny (yn cynnwys amodau eu penodiadau), ac os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y rheolau ac unrhyw ddarpariaeth statudol, y ddarpariaeth statudol fydd yn drech.

Dehongliad

5. Oni bai bod y cyd-destun fel arall yn mynnu, yn y rheolau hyn:
 - mae "cynllun taliadau" yn golygu cynllun taliadau o dan adran 143 Deddf Diwydiant Dŵr 1991;
 - mae "eiddo preswyl" yn golygu unrhyw eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel annedd neu a fwriedir ar gyfer defnydd o'r fath;
 - mae "tâl mesuredig" yn golygu tâl am wasanaethau sydd wedi'i seilio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar symiau cyfaint a fesurwyd;
 - mae "y Gweinidog" yn golygu -
 - (a) yn achos ymgymerywr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol, ac
 - (b) yn achos ymgymerywr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Gweinidogion Cymru;
 - mae "fformiwla Mogden" yn golygu'r fformiwla ganlynol:
Tâl fesul uned elifiant = $R + [(V + Bv) \text{ neu } M] + B(Ot/Os) + S(St/Ss)$ ⁷
lle bod:

R = tâl derbyn a chludo [p/m^3]

V = tâl triniaeth sylfaenol (cyfeintiol) [p/m^3]

Bv = tâl cyfaint ychwanegol os oes triniaeth fiolegol [p/m^3]

M = tâl triniaeth a gwaredu lle bo elifiant yn mynd i arllwysfa môr [p/m^3]

B = tâl ocsideiddio biolegol charthion sydd wedi setlo [p/kg]

Ot = Y galw am ocsigen cemegol (COD) elifiant ar ôl un awr o setliad llonydd ar ph 7

Os = Galw ocsigen cemegol (COD) carthion crai un awr o setliad llonydd

S = tâl trin a gwaredu carthion sylfaenol [p/kg]

St = cyfanswm solidau elifiant mewn daliant ar ph 7 [$mg/litr$]

Ss = cyfanswm solidau carthion crai mewn daliant [$mg/litr$];

- mae "penodai newydd" yn golygu cwmni sydd â phenodiad fel ymgwymerwr perthnasol lle bo amodau'r penodiad hwnnw'n cyfyngu'r taliadau y gellir eu pennu o dan gynllun taliadau drwy gyfeirio at y taliadau a benwyd gan un neu fwy o ymgwymerwyr perthnasol.
- mae "tâl gwerth ardrethol" yn golygu tâl sydd wedi ei bennu yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfeiriad at restr prisio ardrethu neu a benderfynwyd fel arall, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at unrhyw werth neu swm arall a nodwyd ar unrhyw adeg mewn rhestr o'r fath neu sy'n honni i fod wedi ei osod neu ei bennu felly.
- mae "rhestr brisio ar gyfer ardrethu" yn golygu rhestr a gynhelir, neu sydd wedi'i chynnal ar ryw adeg, at ddibenion ardrethu, o dan adran 41 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, adran 67 Deddf Ardrethu Cyffredinol 1967 neu unrhyw ddeddfiad arall;
- mae "gwasanaeth" yn cynnwys cyflenwi dŵr; ac
- mae "tâl heb fesurydd" yn golygu tâl a godir am wasanaethau sydd heb ei seilio ar symiau cyfaint a fesurwyd i unrhyw raddau.

6. Oni bai bod y bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y rheolau hyn yr un ystyr ag sydd yn narpariaeth Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

Cyngor Defnyddwyr Dŵr

7. Cyn llunio cynllun taliadau rhaid i ymgwymerwr perthnasol ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ynglŷn â'i gynllun arfaethedig mewn modd amserol ac effeithiol.

Sefydlogrwydd Biliau

8. Dylai ymgymerywyr gynnal asesiad effaith cymesur pryd bynnag y disgwylir i werth nominal biliau ar gyfer math o gwsmer (gan dybio lefel gyson o ddefnydd) gynyddu gan fwy na 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyhoeddi

9. Rhaid cyhoeddi cynlluniau taliadau dim hwyrach na diwrnod gwaith cyntaf y mis Chwefror yn union cyn y Flwyddyn Codi Tâl y byddant yn weithredol ynddi.
10. Rhaid cyhoeddi cynlluniau taliadau ar wefan ymgymerywr perthnasol ac mewn unrhyw fodd arall y mae'r ymgymerywr yn ei ystyried yn briodol at ddiben eu dwyn i sylw personau y disgwylir iddynt gael eu heffeithio ganddynt.
11. Pan fod ymgymerywr perthnasol wedi cyhoeddi neu bennu taliadau safonol ac eithrio o dan gynllun taliadau ar gyfer unrhyw wasanaethau a ddarperir gan yr ymgymerywr hwnnw, rhaid i gynlluniau taliadau ddatgan sut y gall cwsmeriaid gael copi o daliadau o'r fath ac, os yn briodol, lle ar wefan ymgymerywr perthnasol y gellir dod o hyd i'r taliadau hynny.

Egwyddorion ar gyfer penderfynu ar symiau taliadau

12. Rhaid defnyddio egwyddorion a dulliau cyson er mwyn cyfrifo taliadau ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau cwsmeriaid.
13. Rhaid i strwythurau codi tâl adlewyrchu'r costau cyfartalog tymor hir sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth perthnasol.
14. Rhaid i daliadau am wasanaethau a ddarperir i eiddo preswyl gael eu pennu fel bod cyfartaledd y gwahaniaeth rhwng taliadau mesuredig a thaliadau heb fesurydd ond yn adlewyrchu unrhyw wahaniaethau yng nghostau, a manteision ychwanegol, darpariaeth un gwasanaeth mewn perthynas â'r llall.
15. Rhaid i wahaniaethau rhwng taliadau am wasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr mwy o ddŵr a thaliadau am wasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr llai o ddŵr ond cael eu seilio ar wahaniaethau cost cysylltiedig â defnydd gwahaniaethol asedau rhwydwaith, nodweddion brigo gwahaniaethol, lefelau gwasanaeth gwahanol a/neu wahanol gywirdeb mesuriad gwasanaeth.

16. Lle defnyddir gwahaniaethau cost cysylltiedig â nodweddion brigo gwahaniaethol fel sail ar gyfer gwahaniaethau rhwng taliadau am wasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr dŵr mwy a gwasanaethau am wasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr dŵr llai, rhaid i'r taliadau a bennir ar y sail honno fod wedi eu strwythuro ar sail galw brig priodol.
17. Rhaid i daliadau ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth roi ystyriaeth i'r gwahanol lwyth llygryddion sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth fudr preswyl, carthffosiaeth fudr dibreswyl, elifiant masnachol, draenio dŵr wyneb o eiddo a draenio dŵr wyneb o briffyrdd.

Taliadau a asesir

18. Rhaid i gynlluniau taliadau ganiatáu i gwsmeriaid ddewis talu tâl a asesir a bennir yn unol â'r rheol hon yn yr amgylchiadau penodedig:
- (a) Rhaid i fath a swm(symiau) tâl a asesir gael ei benderfynu yn unol â'r egwyddorion canlynol:
 - (i) dylai taliadau a asesir adlewyrchu, cyn agosed â phosibl, y taliadau mesuredig a fyddai'n gymwys mewn perthynas â chyfaint y dŵr sy'n debygol o gael ei gyflenwi; a
 - (ii) dylai swm y tâl a asesir sy'n daladwy gan unigolyn sy'n unig ddeiliad eiddo preswyl (tâl a asesir deiliad sengl) adlewyrchu cyfaint y dŵr sy'n debygol o gael ei gyflenwi i eiddo preswyl a feddiannir gan un unioglyn yn yr ardal berthnasol.
 - (b) Yr amgylchiadau penodedig at ddiben y rheol hon yw pan fo ymgymwrwr dŵr wedi derbyn hysbysiad taliadau a fesurwyd yn unol ag adran 144A Deddf Diwydiant Dŵr 1991 ond nad oedd rhwymedigaeth i'w weithredu oherwydd:
 - (i) nid yw'n ymarferol resymol i bennu taliadau parthed yr eiddo drwy gyfeirio at gyfaint y dŵr a gyflenwir, neu
 - (ii) byddai gwneud hynny yn golygu cost afresymol ar yr ymgymwrwr.

Taliadau heb fesurydd

19. Rhaid i gynlluniau taliadau sy'n cynnwys unrhyw daliadau heb fesurydd ddatgan yn glir y sail a ddefnyddiwyd ar gyfer gosod neu bennu taliadau ac, mewn achos taliadau gwerth ardrethol, ddatgan:
- (a) pa daliadau rhestr brisio ar gyfer ardrethu a osodir neu a bennir drwy gyfeirio ato; ac

- (b) os yw'r ymgwymerwr yn defnyddio gwahanol werth neu swm arall i'r hyn a nodir mewn rhestr o'r fath, y fethodoleg neu sail arall a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gwerth gwahanol neu'r swm arall.

Taliadau dŵr gwastraff

20. Rhaid i gynlluniau taliadau ymgwymerwyr carthffosiaeth ddarparu ar gyfer lleihad sy'n adlewyrchu'r gost yn y taliadau sy'n daladwy am ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth i unrhyw eiddo lle bo'r ymgwymerwr carthffosiaeth yn gwybod, neu fe ddylai'n rhesymol fod wedi gwybod, nad yw dŵr wyneb yn draenio i garthffos gyhoeddus o'r eiddo hwnnw.
21. Rhaid i ymgwymerwyr carthffosiaeth nodi yn eu cynlluniau taliadau sut y caiff unrhyw leihad yn y taliadau sy'n daladwy am ddarpariaeth gwasanaeth carthffosiaeth ei gyfrifo os gall cwsmeriaid ddangos eu bod wedi lleihau'n sylweddol gyfaint y dŵr wyneb a gaiff ei ddraenio o'u heiddo i garthffos gyhoeddus neu egluro pam nad oes darpariaeth o'r fath.

Elifant masnachol

22. Rhaid i daliadau sydd i'w talu mewn cysylltiad â chynnal swyddogaethau elifiant masnachol ymgwymerwr carthffosiaeth fod wedi'u seilio ar fformiwla Mogden, amrwyd rhesymol o fformiwla Mogden neu ar sail adlewyrchu cost amlwg.

Tariffau cymdeithasol / Taliadau draenio consesiynol

23. Rhaid i gynlluniau taliadau ddatgan:
- (a) a yw ymgwymerwyr wedi penderfynu cynnwys neu beidio yn y cynllun taliadau:
- (i) ddarpariaeth sydd wedi'i bwriadu i leihau taliadau a godir ar grwpiau cymunedol parthed draenio dŵr wyneb o'u heiddo (wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog o dan adran 43 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010);
 - (ii) darpariaeth sydd wedi'i bwriadu i leihau taliadau a godir ar unigolion a fyddai'n cael anhawster i dalu'n llawn (wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog o dan adran 44 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010); ac
- (b) os cynhwysir darpariaeth o'r fath, sut y gall cwsmeriaid cymwys wneud cais am daliadau gostyngedig o'r fath.

Amseroedd a dulliau talu

24. Rhaid i gynlluniau taliadau gynnwys darpariaethau sy'n rhoi dewis rhesymol i gwsmeriaid ynglŷn ag amseroedd a dulliau talu'r taliadau a bennir gan y cynllun.

Tariffau Diofyn Dibreswyl

25. Mae'n rhaid i gynllun taliadau pob ymglymerwr perthnasol gynnwys y mathau o daliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (a elwir yn dariffau diofyn) a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 6 y rhybudd a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ar 12 Rhagfyr 2014 o benderfyniad ar reolaethau prisiau o dan benodiad yr ymglymerwr hwnnw, oni bai bod y math o daliad yn ymwneud â chytundeb gyda'r person y codir tâl arno (a elwir yn gytundeb arbennig).

Penodeion newydd

26. Nid yw Rheol 9 yn berthnasol i benodeion newydd. Yn hytrach, rhaid i benodeion newydd gyhoeddi cynlluniau taliadau dim hwyrach na 22 Chwefror yn union cyn y Flwyddyn Codi Tâl y byddant yn dod i rym ynddi.

27. Nid yw Rheol 25 (Tariffau Diofyn Dibreswyl) yn berthnasol i benodeion newydd nac i Cholderton and District Water Company Limited.

Atodiad Gofynion o ran gwybodaeth

- A1 Dylai pob ymglymerwr roi datganiad sicrwydd i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr gan ei Fwrdd Cyfarwyddwr a chyhoeddi ei ddatganiad dim hwyrach nac amser cyhoeddi'r cynlluniau taliadau yn cadarnhau:
- (a) Bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r taliadau a nodir yn ei gynllun taliadau;
 - (b) Bod y Bwrdd wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid ar gyfer ystod o fathau gwahanol o gwsmeriaid, a'i fod yn cymeradwyo'r asesiadau effaith a'r strategaethau trin a ddatblygwyd mewn achosion lle bo cynnydd biliau ar gyfer mathau penodol o gwsmeriaid yn uwch na 5%.
 - (c) Bod gan y cwmni systemau a phrosesau priodol ar waith i wneud yn siŵr bod y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cynllun taliadau, a gwybodaeth ychwanegol, yn gywir; a
 - (d) Bod y cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater) mewn modd amserol ac effeithiol ynglŷn â'i gynlluniau taliadau.

- A2 Dylai pob ymgwymerwr ddarparu datganiad i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn nodi unrhyw newidiadau sylweddol a ragwelir gan yr ymgwymerwr, a chyhoeddi'r datganiad, o leiaf dair wythnos cyn cyhoeddiad y cynlluniau taliadau. Dylai'r datganiad gynnwys y canlynol:
- (a) Cadarnhad ynglŷn ag a yw'r ymgwymerwr yn disgwyl y bydd unrhyw gynnydd o fwy na 5% mewn biliau o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math arbennig o gwsmer gan dybio lefel defnydd cyson) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:
 - (i) beth fydd maint y cynnydd a ddisgwylir;
 - (ii) pa fath o gwsmer y disgwylir iddo effeithio arno; a'r
 - (iii) strategaethau trin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam fod y cwmni o'r farn nad oedd angen unrhyw strategaethau trin.
 - (b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi codi tâl gan y cwmni o'r flwyddyn flaenorol.
- A3 Yn ychwanegol at y sicrwydd a nodir uchod, rhaid i ddatganiadau sicrwydd penodeion newydd gynnwys sicrwydd bod eu cynlluniau taliadau yn cynnwys:
- (a) lefelau gwasanaeth sydd o leiaf yn gymharol â chynllun taliadau'r penodai blaenorol;
 - (b) nad yw prisiau'n uwch na'r rheini yng nghynllun taliadau'r penodai blaenorol ar gyfer gwasanaethau tebyg; a
 - (c) bod prisiau'n cyfateb i'r rheini a nodwyd yng nghais y penodai newydd ar gyfer pob maes penodiad neu faes amrywiad.

Atodiad 3: Arsyllwadau ar enghreifftiau o arfer da

Rhagymadrodd

Er bod atodiad 2 yn nodi ein rheolau cynllun taliadau drafft ar gyfer 2016-17, dylid nodi mewn rhai achosion bod nifer o ffyrdd y gellid cadw'n briodol at reolau o'r fath. Felly, rydym wedi nodi rhai enghreifftiau o arfer da a weslom gan gwmnïau drwy broses cymeradwyo taliadau 2015-16. Nid dyma'r holl enghreifftiau - hynny yw, gwelwyd enghreifftiau eraill o arfer da nad ydym wedi eu cynnwys er mwyn bod yn gryno.

Trosolwg cyffredinol

Fel rhan o broses gymeradwyaeth taliadau 2015-16 gwnaethom hi'n ofynnol i bob cwmni ddarparu datganiad sicrwydd gan eu Bwrdd, a bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefannau. Nododd y cwmnïau ystod o wybodaeth yn egluro sut yr oedd eu Byrddau'n goruchwyllo datblygiad eu taliadau.

Nododd **South West Water** yn glir ac yn fanwl yr hyn a ystyriwyd gan ei Fwrdd wrth gymeradwyo cynllun y cwmni. Yn ogystal, South West oedd yr unig gwmni oedd wedi cael pob aelod o'r Bwrdd i arwyddo'r datganiad sicrwydd â llaw. Er nad yw hyn ynddo'i hun yn arwydd clir o lywodraethu effeithiol, mae'n dangos ymhellach faint o berchnogaeth a goruchwyliaeth sydd gan y Bwrdd.

Rhoddodd **Thames Water** hefyd drosolwg clir a manwl o'i brosesau sicrwydd. Roedd hyn yn cynnwys nodi'n glir y gwahanol bwyntiau y gwnaeth ei Fwrdd a'i is-bwyllgorau eu hadolygu yng nghynllun taliadau'r cwmni.

Asesiadau effaith

Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn biliau yn 2015-16, arweiniodd y strwythuro taliadau at gynnydd mewn biliau ar gyfer rhai mathau o gwsmeriaid, ar gyfer rhai cwmnïau. Lle disgwylir y gallai cwsmeriaid weld cynnydd sylweddol yn eu biliau, gwnaethom hi'n ofynnol i gwmnïau gynnal asesiadau effaith cymesur er mwyn canfod pa gwsmeriaid yr effeithir arnynt ac i ba raddau.

Nododd **Northumbrian Water** asesiad effaith clir a manwl. Ystyriodd yr asesiad effaith y newidiadau mewn strwythurau tariff ar wahanol gwsmeriaid. Roedd yr asesiad yn cynnwys manylion yr effeithiau ar filiau, y rheswm am y newid, cyfres o

gampau lliniaru, ac asesiad ynglŷn ag a fyddai angen strategaeth trin benodol. Dewisodd y cwmni gynnal asesiad o'r fath ar gyfer yr holl newidiadau tariff; nid dim ond yr achosion hynny lle roedd disgwyl i filiau gynyddu gan fwy na 5%. Er ein bod wedi gosod trothwy o 5% ar gyfer 'sylweddol', dywedom y byddai'n well gennym (yn y tymor hwy) pe bai cwmnïau'n nodi pryd y gallai fod angen asesiad effaith heb osod trothwy unffurf. Dangosodd Northumbrian fenter yn y maes hwn drwy benderfynu pryd y byddai angen asesiadau effaith cymesur (tra'n cadw at ein gofyniad 5%), gan ddewis yn ogystal i roi ar waith nifer o strategaethau trin pan oedd effeithiau biliau yn is na'r trothwy 5%.

Cynhaliodd **South East Water** hefyd asesiad effaith manwl, gan wahanu cwsmeriaid mewn modd manwl iawn yn ôl gwahanol dybiaethau defnydd.

Strategaethau trin

Gan ddilyn ymlaen o'r asesiadau effaith, lle bo hynny'n briodol, roedd hi'n ofynnol i gwmnïau gynnal strategaethau trin ar gyfer rheoli effeithiau biliau ar gwsmeriaid.

Nododd **Anglian Water** ac **United Utilities** gynydd uwch na 5% mewn biliau ar gyfer rhai cwsmeriaid. Dangosodd y ddau gwmni'n glir sut yr oeddent wedi ceisio lliniaru'r effaith ar filiau, a sut yr oeddent yn bwriadu ymgysylltu â'r cwsmeriaid yr effeithir arnynt. Hefyd, dangosodd y ddau gwmni eu bod wedi dechrau gwaith ar eu strategaethau trin sawl mis cyn y flwyddyn codi tâl newydd. Cynyddodd hyn ein hyder ynglŷn â pha mor briodol oedd y strategaethau a sefydlwyd gan y cwmnïau.

Gwelliannau sylweddol

Gwnaethom hefyd nodi gwelliant amlwg yn y sicrwydd ansawdd, ac (yn seiliedig ar ein hasesiad risg o'r wybodaeth a ddarparwyd) leihad sylweddol yn nifer y materion yn ymwneud â thaliadau ar gyfer **Dŵr Dyffryn Dyfrdwy** a **Portsmouth Water**. Gyda'r ddau gwmni, roeddem wedi nodi materion sylweddol gyda'u cyflwyniadau drafft o fis Hydref; roedd hi felly'n galonogol i weld y cwmnïau hyn yn gwneud gwelliannau sylweddol yn dilyn ein hasesiad o'u taliadau drafft.